# Agenda - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 27 Tachwedd 2023

Amser: 13.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**P Gareth Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDCC@senedd.cymru

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(13.30)

## 2 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

(13.30 - 13.35) (Tudalen 1)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-33-23 - Papur 1 - Adroddiad drafft

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol**

**2.1 SL(6)416 - Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Dyddiad Cyhoeddi'r Cofrestrau Etholiadol) (Cymru) 2023**

## 3 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

(13.35 - 13.40)

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Negyddol**

**3.1 SL(6)414 - Rheoliadau Addysg (Benthyciadau i Fyfyrwyr) (Ad-dalu) (Diwygio) (Rhif 3) 2023**

(Tudalennau 2 - 5)

Rheoliadau

Senedd Cymru
Welsh Parliament

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-33-23 - Papur 2 - Adroddiad drafft

LJC(6)-33-23 - Papur 3 - Datganiad ysgrifenedig gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg, 9 Tachwedd 2023

**3.2 SL(6)415 - Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2023**

(Tudalennau 6 - 8)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-33-23 - Papur 4 - Adroddiad drafft

## 4 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 - trafodwyd eisoes

(13.40 - 13.45)

**4.1 SL(6)404 - Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Sancsiynau Sifil) (Cymru) 2023**

(Tudalennau 9 - 12)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-33-23 - Papur 5 - Adroddiad

LJC(6)-33-23 - Papur 6 - Ymateb Llywodraeth Cymru

## 5 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

(13.45 - 13.50)

**5.1 Gohebiaeth gan Weinidog yr Economi: Grŵp Rhyng-Weinidogol ar gyfer Masnach**

(Tudalen 13)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-33-23 - Papur 7 - Llythyr gan Weinidog yr Economi, 17 Tachwedd 2023

**5.2 Gohebiaeth gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Y Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer Tai, Llywodraeth Leol a Chymunedau**

(Tudalen 14)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-33-23 – Papur 8 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 21 Tachwedd 2023

**5.3 Gohebiaeth gan Brif Weinidog Cymru: 40fed Uwchgynhadledd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig**

(Tudalen 15)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-33-23 – Papur 9 – Llythyr gan Brif Weinidog Cymru, 23 Tachwedd 2023

## 6 Papurau i'w nodi

(13.50 – 13.55)

**6.1 Gohebiaeth gan Weinidog yr Economi i'r Llywydd: Y Bil Masnach (Partneriaeth Gynhwysfawr a Blaengar y Môr Tawel)**

(Tudalen 16)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-33-23 – Papur 10 – Llythyr gan Weinidog yr Economi i'r Llywydd, 23 Tachwedd 2023

## 7 Cynnig i ethol Cadeirydd dros dro o dan Reol Sefydlog 17.22 ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor ar 4 Rhagfyr 2023

(13.55 – 14.00)

## 8 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(14.00)

## 9 SICM(6)3 – Rheoliadau Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 (Diwygiadau Canlyniadol) 2023: Adroddiad drafft

(14.00 – 14.10) (Tudalennau 17 – 25)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-33-23 – Papur 11 – Adroddiad drafft [Saesneg yn unig]

LJC(6)-33-23 – Papur 12 – Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 23 Tachwedd 2023

LJC(6)-33-23 – Papur 13 – Llythyr at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 15 Tachwedd 2023

## 10 Egwyddorion drafft ar gyfer deddfu drwy Filiau'r DU

(14.10 – 14.40) (Tudalennau 26 – 31)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-33-23 – Papur 14 – Papur drafft [Saesneg yn unig]

LJC(6)-33-23 – Papur 15 – Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 13 Tachwedd 2023

LJC(6)-33-23 – Papur 16 – Datganiad Ysgrifenedig gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 10 Tachwedd 2023

## 11 Gweithdrefnau sy'n ofynnol er mwyn craffu ar ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020 a fframweithiau polisi cyffredin y DU gyfan

(14.40 – 14.50) (Tudalennau 32 – 56)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-33-23 – Papur 17 – Llythyr gan y Pwyllgor Busnes, 22 Tachwedd 2023

LJC(6)-33-23 – Papur 18 – Nodyn Cyngor

# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
# 27 Tachwedd 2023

## SL(6)416 – Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Dyddiad Cyhoeddi'r Cofrestrau Etholiadol) (Cymru) 2023

### Gweithdrefn: Cadarnhaol

Mae'r Rheoliadau hyn yn pennu dyddiad diwygiedig ar gyfer diwedd y cyfnod y mae rhaid i fersiynau diwygiedig y cofrestrau o etholwyr llywodraeth leol yng Nghymru gael eu cyhoeddi ynddo gan swyddogion cofrestru o dan adran 13(1)(a) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, yn dilyn canfasiad blynyddol yn 2024.

Mae Rheoliad 28 o Reoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Diwygio'r Etholfraint ac Adolygu Cymhwystra) 2023 yn ymestyn y terfyn amser erbyn pryd y mae rhaid i swyddogion cofrestru gyhoeddi fersiynau diwygiedig y cofrestrau o etholwyr seneddol y Deyrnas Unedig a gynhelir ar gyfer ardaloedd yng Nghymru, am y flwyddyn 2024, hyd at 1 Chwefror 2025.

Mae rheoliad 2(2) o'r Rheoliadau hyn hefyd yn ymestyn y terfyn amser erbyn pryd y mae rhaid i swyddogion cofrestru gyhoeddi fersiynau diwygiedig y cofrestrau o etholwyr llywodraeth leol a gynhelir ar gyfer ardaloedd yng Nghymru, ar gyfer y flwyddyn 2024, hyd at 1 Chwefror 2025.

Mae'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Rheoliadau hyn yn nodi:

"Mae hyn i bob pwrpas yn caniatáu dau fis ychwanegol i Swyddogion Cofrestru Etholiadol yng Nghymru gyhoeddi eu cofrestrau etholiadol llywodraeth leol diwygiedig i ystyried y gofyniad i Swyddogion Cofrestru Etholiadol adolygu cymhwysedd dinasyddion yr UE sydd wedi'u cofrestru yng Nghymru i bleidleisio mewn etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu."

**Rhiant-Ddeddf:** Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983

**Fe'u gwnaed ar:** Heb ei nodi

**Fe'u gosodwyd ar:** Heb ei nodi

**Yn dod i rym ar:** 11 Rhagfyr 2023

# SL(6)414 – Rheoliadau Addysg (Benthyciadau i Fyfyrwyr) (Ad-dalu) (Diwygio) (Rhif 3) 2023

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Addysg (Benthyciadau i Fyfyrwyr) (Ad-dalu) 2009 ("Rheoliadau 2009"), sy'n darparu ar gyfer ad-dalu benthyciadau i fyfyrwyr sy'n amodol ar incwm yng Nghymru a Lloegr.

Mae rheoliad 2 yn diwygio Rheoliadau 2009 i gapio'r llog a fyddai fel arall yn daladwy ar fenthyciadau israddedig ac ôl-raddedig penodol i fyfyrwyr (o dan reoliadau 21A, 21B a 21C). Mae'n rhoi cap ar gyfraddau llog hirdymor, a asesir yn fisol (gan ddisodli'r rheoliad 20B presennol, a gyfrifwyd yn chwarterol ac a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i Reoliadau diwygio chwarterol gael eu gwneud). Cyfrifir y cap mewn perthynas â mis, yn gyntaf, drwy gyfrifo'r cyfartaledd treigl o 12 mis mewn dwy set ddata a gyhoeddir gan Fanc Lloegr ac, wedyn, drwy gymryd yr isaf o'r ddwy. Mae'n ofynnol i'r Awdurdod[1] gyhoeddi'r cap ar gyfraddau llog ar gyfer pob mis.

Mae rheoliad 3 yn gwneud diwygiadau i Reoliadau 2009 o ganlyniad i'r newid a wneir gan reoliad 2.

Mae rheoliad 4 yn ymwneud â chwmpas y gyfradd ad-dalu sefydlog, sy'n berthnasol i ad-dalu benthyciadau myfyrwyr gan fenthycwyr tramor. Mae'n darparu ar gyfer cyfrifo'r gyfradd ad-dalu sefydlog ar gyfer benthyciadau myfyrwyr cynllun 1 yn yr un modd ag ar gyfer cynllun 2, cynllun 3 a chynllun 5 benthyciadau myfyrwyr.

## Gweithdrefn

Negyddol Cyfansawdd

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol, cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd a Senedd y DU.

Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd. Gall Senedd y DU hefyd ddirymu'r Rheoliadau, yn unol â'r rheolau ar gyfer dirymu sy'n gymwys i Senedd y DU.

1 Mae'r "Awdurdod" yn golygu - (a) mewn perthynas â benthyciad cynllun 1, 2 neu 3 ac yn ddarostyngedig i reoliad 7 - (i) Gweinidogion Cymru yn achos benthyciad a wneir neu y tybir ei fod wedi'i wneud ganddynt, neu (iii) yr Ysgrifennydd Gwladol mewn unrhyw achos arall; ac (c) mewn perthynas â benthyciad cynllun 5 ac yn ddarostyngedig i reoliad 7, yr Ysgrifennydd Gwladol.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

1. **Rheol Sefydlog 21.2(ix) – nad yw wedi'i wneud neu i'w wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg**

Mae'r Rheoliadau hyn wedi cael eu gwneud fel offeryn cyfansawdd, felly mae'r Rheoliadau: (a) wedi cael eu gwneud gan Weinidogion Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol, a (b) wedi cael eu gosod gerbron y Senedd a Senedd y DU. O ganlyniad, gwnaed y Rheoliadau yn Saesneg yn unig.

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn egluro fel a ganlyn:

> *"Fe wnaed Rheoliadau 2009 fel rheoliadau cyfansawdd gan Weinidogion Cymru (mewn perthynas â Chymru) a'r Ysgrifennydd Gwladol. Maent yn llywodraethu ad-daliadau o fenthyciadau myfyrwyr gan fenthycwyr sydd wedi cymryd benthyciad yn seiliedig ar incwm ar gyfer cyrsiau sy'n dechrau ar neu ar ôl Medi 1998. Mae Rheoliadau 2009 yn cynnwys darpariaethau (heb eu datganoli i Weinidogion Cymru) a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â Chymru a Lloegr sy'n ymwneud â'r system dreth a weithredir gan Gyllid a Thollau Ei Fawrhydi. Gwneir rhai darpariaethau eraill gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru a'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â Lloegr.*
>
> *Gan y bydd y rheoliadau'n destun craffu gan Senedd y DU, ni ystyrir ei fod yn rhesymol ymarferol i'r offeryn hwn gael ei wneud na'i osod yn ddwyieithog. Felly, mae Rheoliadau 2023 yn cael eu gwneud yn Saesneg yn unig."*

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y tri phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

2. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn ddiben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn egluro fel a ganlyn:

> *"Er mwyn osgoi'r angen i wneud rheoliadau bob chwarter, mae Rheoliadau 2023 yn cyflwyno darpariaeth barhaol sy'n creu system gyda chap a fyddai'n cael ei chymhwyso pryd bynnag y byddai cyfraddau llog benthyciadau myfyrwyr fel arall yn fwy na chyfradd y farchnad. Byddai hyn yn darparu bod cyfraddau llog Cynllun 2, Cynllun 3 a Chynllun 5 yn RPI a hyd at 3% (yn dibynnu ar y math o gynllun, yn unol â'r rheoliadau cyfredol) oni bai bod cyfradd bresennol y farchnad yn llai na hyn, ac os felly byddai cap cyfradd y farchnad yn berthnasol. Byddai hyn yn golygu y gallai cyfraddau llog Cynllun 2, Cynllun 3 a Chynllun 5 newid unrhyw fis pan fydd y cap mewn grym a byddai'r cap yn cael ei gymhwyso yn seiliedig ar y data*

*diweddaraf a gyhoeddir ynghylch cyfradd bresenol y farchnad. Lle mae cap mewn grym, bydd pob benthyciwr yn gweld gostyngiad yn y gyfradd llog sy'n cael ei chymhwyso i'w balans o'i gymharu â'r cyfraddau heb eu capio. Am resymau gweithredol, byddai'r addasiad i gap cyfradd y farchnad yn cael ei weithredu ar ddiwrnod cyntaf y mis perthnasol (lle byddai'n berthnasol gwneud hynny).*

3. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sydd o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"Ni chynhaliwyd ymgynghoriad. Ni ystyriwyd bod angen ymgynghoriad gan fod Rheoliadau 2023 yn cael eu gweithredu i gynnal y gofynion yn Neddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998. At hynny, dyma ran o'r system cyllid myfyrwyr lle y mae cyfleoedd cyfyngedig iawn i Gymru i ddilyn llwybr gwahanol ar gyfer benthycwyr Cymru. Hefyd, gan nad oedd llawer o amser i ddeddfu mewn cysylltiad â benthyciadau yng Nghymru mewn ymateb i newidiadau gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig ar gyfer benthycwyr Lloegr, ni fu cyfle i gynnal ymgynghoriad.*

4. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae rheoliad 2(b) yn mewnosod y rheoliad newydd 20BA yn Rheoliadau 2009. Fel y cyfryw, mae rheoliad 20BA(6) yn darparu: *"The Authority must publish the interest rate cap in relation to every month, as soon as practicable and by whatever means and in whatever media the Authority thinks fit."* A all Llywodraeth Cymru roi syniad o ble y bydd y cap misol ar gyfraddau llog yn cael ei gyhoeddi?

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru ar gyfer pwynt pedwar yn unig.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**21 Tachwedd 2023**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Cyfraddau llog ar fenthyciadau i fyfyrwyr** |
| **DYDDIAD** | **09 Tachwedd 2023** |
| **GAN** | **Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg** |

Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau nad yw cyfraddau llog ar fenthyciadau i fyfyrwyr yn codi'n uwch na chyfradd y farchnad.

Rydym wedi gweithredu sawl gwaith yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf i osod cap ar gyfradd benthyciadau i fyfyrwyr i ddiogelu benthycwyr Cymru. Mae'n bosibl y gosodir capiau ychwanegol ar gyfraddau os bydd cyfradd y farchnad yn parhau i fod yn is na chyfraddau llog benthyciadau i fyfyrwyr.

I ddiogelu myfyrwyr Cymru ymhellach rhag cyfraddau llog uchel parhaus, rydym wedi sefydlu system ddeddfwriaethol i gymhwyso cap ar gyfraddau llog yn awtomatig pryd bynnag y byddai'r cyfraddau llog ar fenthyciadau myfyrwyr fel arall yn uwch na chyfradd y farchnad. Bydd cap yn cael eu osod a'i addasu'n fisol ar gyfradd llog myfyrwyr Cymru sydd â benthyciadau Cynllun 2 (israddedig) neu Gynllun 3 (ôl-raddedig) pan fydd y cyfraddau llog ar fenthyciadau i fyfyrwyr yn uchel.

Bydd y system hon yn sicrhau bod gosod cap ar gyfraddau llog yn dryloyw ac yn ymatebol i gyfraddau newidiol a bydd yn diogelu benthycwyr Cymru rhag ad-dalu mwy ar eu benthyciadau yn y dyfodol.

Nid yw newidiadau i gyfraddau llog yn effeithio ar ad-daliadau misol benthyciadau myfyrwyr, gan mai cyfran sefydlog o incwm y myfyriwr yw'r swm a delir. Mae ad-daliadau benthyciadau yn ddibynnol ar lefel yr incwm. Dim ond os yw myfyrwyr yn ennill dros drothwy arbennig y maent yn gorfod ad-dalu eu benthyciad, a chaiff unrhyw ddyled sy'n dal heb ei thalu ar ôl tri deg mlynedd ei chlirio.

Ni ddylai costau byw fod yn rhwystr i astudio mewn prifysgol, a dyna pam mae Llywodraeth Cymru yn darparu pecyn cymorth hael i fyfyrwyr, gan gynnwys grantiau ar gyfer costau byw. Ar gyfartaledd, mae llai gan fyfyrwyr Cymru lai i'w ad-dalu na'u cyfoedion yn Lloegr. Llywodraeth Cymru hefyd yn talu hyd at £1,500 o ddyled pob unigolyn sy'n mynd ati i ddechrau ei had-dalu, cynllun sy'n unigryw o fewn y DU.

# SL(6)415 – Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2023

## Cefndir a Diben

Mae Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2023 ("Rheoliadau 2023") yn gwneud diwygiadau i'r rheoliadau a ganlyn:

i) Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Gwybodaeth Esboniadol ar gyfer Datganiadau Ysgrifenedig o Gontractau Meddiannaeth) (Cymru) 2022 ("y Rheoliadau Gwybodaeth Esboniadol")

Mae rheoliad 2 yn diwygio rheoliadau 3 ac 8 o'r Rheoliadau Gwybodaeth Esboniadol. Mae'r diwygiadau a wneir i reoliad 3 yn egluro'r materion rhagnodedig y mae rhaid cynnwys gwybodaeth esboniadol ar eu cyfer yn y datganiad ysgrifenedig o gontract meddiannaeth. Mae'r diwygiadau i reoliad 8 i gywiro mân wallau testunol ac atalnodi yn y testun Saesneg.

ii) Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Datganiadau Ysgrifenedig Enghreifftiol o Gontract) (Cymru) 2022

Mae Rheoliad 3 yn diwygio Atodlenni 1 i 3 i Reoliadau Rhentu Cartrefi (Datganiadau Ysgrifenedig Enghreifftiol o Gontract) (Cymru) 2022 i egluro pryd y mae digolledIad yn daladwy i ddeiliad y contract. Os bydd y datganiad ysgrifenedig yn cael ei ddarparu'n hwyr, mae digolledIad yn daladwy o'r dyddiad meddiannu. Mae diwygiadau i Ran 3 o Atodlen 2 yn cywiro gwallau yn nhestun Saesneg telerau 47 a 60 ac yn adlewyrchu adran 180(3)(a) o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 yn nheler 60.

iii) Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Ffurfiau Rhagnodedig) (Cymru) 2022

Mae rheoliad 4 yn diwygio'r nodiadau cyfarwyddyd ar gyfer deiliaid contractau yn ffurflen RHW17 (hysbysiad y landlord o derfynu: contract safonol cyfnodol gyda chyfnod hysbysu byrraf a ganiateir o ddau fis (heblaw contract safonol rhagarweiniol neu gontract safonol ymddygiad gwaharddedig)). Mae hyn yn dileu gwybodaeth sy'n ymwneud â chontractau sydd wedi eu trosi yn ffurflen RHW17 nad yw'n berthnasol mwyach.

## Y weithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft**

Yn rheoliad 4, yng ngeiriau agoriadol y testun Saesneg cyn paragraff (a), nodir bod y testun presennol yn ffurflen RHW17 wedi ei leoli "*in the guidance notes for contract-holders*". Mae hyn yn gyson â'r pennawd a roddir yn nhestun Saesneg ffurflen RHW17.

Fodd bynnag, yn nhestun Cymraeg rheoliad 4, nodir bod y testun presennol yn ffurflen RHW17 wedi'i leoli *"yn y nodiadau cyfarwyddyd ar gyfer deiliaid contract"*. Ond mae hyn yn wahanol i'r pennawd a roddir uwchben y nodiadau hynny yn nhestun Cymraeg ffurflen RHW17, sydd wedi'i gyfieithu fel "*canllawiau i ddeiliaid contract*". Felly, nid yw'r testun Cymraeg yn nodi'n gywir leoliad y testun presennol yn ffurflen RHW17 sydd i'w ddiwygio.

2. **Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft**

Yn rheoliad 4(a)—

a) yn y testun Cymraeg, bydd y diwygiad yn creu brawddeg newydd a fydd yn nodi:

   *"Gall contract meddiannaeth fod â chyfnod hysbysu byrraf a ganiateir o ddau fis **oherwydd mae'r** contract meddiannaeth yn dod o fewn Atodlen 8A i Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) (adran 174A o'r Ddeddf honno)"*.

Ond mae'r geiriau "**oherwydd mae'r**" yn ramadegol anghywir o'u rhoi yng nghystrawen un frawddeg gyflawn, ac yn yr achos hwn, dylid nodi "**oherwydd bod y**".

Pe bai'r frawddeg a grëir gan y diwygiad wedi defnyddio "oherwydd bod y", byddai hefyd yn fwy cyson â darpariaeth debyg a geir yn nhestun Cymraeg presennol paragraff b) o dan y pennawd "Cyfnod hysbysu byrraf a ganiateir o ddau fis" yn ffurflen 25 o'r un Atodlen;

b) yn y testun Saesneg, mae testun y diwygiad hefyd yn methu â chywiro gwall arall sy'n bodoli eisoes gan fod y flwyddyn "2016" ar goll o deitl "Renting Homes (Wales) Act **2016"** ar ddiwedd paragraff b).

## Rhinweddau: craffu

Ni nodwyd pwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â phob un o'r pwyntiau adrodd.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**

Senedd Cymru
**Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
Welsh Parliament
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**20 Tachwedd 2023**

# SL(6)404 – Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Sancsiynau Sifil) (Cymru) 2023

## Cefndir a Diben

Nod Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023 (**y Ddeddf**) yw mynd i'r afael â'r difrod a achosir gan ddefnyddio a chael gwared ar gynhyrchion plastig untro (**CPU**) yng Nghymru. Mae Adran 5 o'r Ddeddf yn creu trosedd o gyflenwi CPU gwaharddedig.

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu y caiff awdurdod lleol, fel y rheoleiddiwr, osod sancsiynau sifil mewn perthynas â throseddau o dan adran 5 fel dewis amgen yn lle erlyniadau troseddol. Y sancsiynau sifil yw:

- cosbau ariannol penodedig,
- cosbau ariannol amrywiadwy,
- hysbysiadau cydymffurfio,
- hysbysiadau stop, ac
- ymgymeriadau gorfodi.

Er enghraifft, os yw awdurdod lleol wedi ei fodloni y tu hwnt i amheuaeth resymol fod person wedi cyflawni trosedd o dan adran 5, caiff yr awdurdod lleol, lle mae'n briodol gwneud hynny, osod cosb benodedig o £200 ar y person yn lle erlyn y person.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn darparu ar gyfer canllawiau yn ymwneud â defnyddio sancsiynau sifil, ac ar gyfer cyhoeddi gwybodaeth am y camau gorfodi a gymerwyd gan awdurdodau lleol.

## Y weithdrefn

Cadarnhaol Drafft

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod fersiwn ddrafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y pedwar pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Mae rheoliad 6 yn nodi:

*Caiff y rheoleiddiwr adennill unrhyw gosb ariannol benodedig, unrhyw gosb ariannol amrywiadwy neu unrhyw gosb am beidio â chydymffurfio ar orchymyn llys, fel pe bai'n daladwy o dan orchymyn llys.*

Byddem yn ddiolchgar pe gallai Llywodraeth Cymru egluro ystyr rheoliad 6, yn benodol pam fod angen dweud bod cosb y gellir ei hadennill "ar orchymyn llys" yn cael ei thrin fel un sy'n daladwy "o dan orchymyn llys". Heb esboniad, mae'r cyfeiriad at orchymyn llys a gorchymyn llys yn ymddangos yn gylchog.

**2. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Mae rheoliad 14 yn darparu ar gyfer cyhoeddi gwybodaeth am sancsiynau sifil. Er enghraifft, mae'n rhaid i awdurdod lleol gyhoeddi adroddiadau sy'n pennu'r achosion y gosodwyd y sancsiwn sifil ynddynt. Fodd bynnag, mae rheoliad 14(3) yn nodi nad yw rheoliad 14 yn gymwys mewn achosion pan fo Gweinidogion Cymru yn ystyried y byddai cyhoeddi yn amhriodol.

Byddem yn ddiolchgar pe gallai Llywodraeth Cymru:

(a) egluro'r bwriad y tu ôl i reoliad 14(3),

(b) rhoi enghreifftiau o bryd y gallai cyhoeddi fod yn amhriodol, ac

(c) esbonio sut y bydd barn Llywodraeth Cymru ynghylch yr hyn sy'n amhriodol yn cael ei chyfleu i awdurdodau lleol.

**3. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Mae paragraff 2 o Atodlen 1 yn nodi gofynion hysbysiad o fwriad i osod cosb ariannol benodedig. O ran paragraff 2:

(a) A ddylai hysbysiad o fwriad hefyd gynnwys gwybodaeth am sut y gellir gwneud y taliad rhyddhau?

(b) Beth mae "gofyniad" yn ei olygu ym mharagraff 2(2)(d)(iii)? Nid yw Atodlen 1 yn cyfeirio'n benodol at unrhyw "ofyniad" (yn wahanol i Atodlen 2). A ddylid newid "gofyniad" i "gosb"?

**4. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Mae paragraff 1(4) o Atodlen 2 yn dweud, cyn cyflwyno hysbysiad cosb ariannol amrywiadwy, caiff y rheoleiddiwr ei gwneud yn ofynnol i'r person ddarparu gwybodaeth at ddiben cadarnhau swm unrhyw fudd ariannol sy'n deillio o ganlyniad i drosedd o dan adran 5.

Fodd bynnag, nid yw'n glir beth sy'n digwydd os yw'r person yn gwrthod darparu'r wybodaeth, h.y. sut mae'r gofyniad hwn yn cael ei orfodi?

## Rhinweddau: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â phob un o’r pwyntiau adrodd.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 20 Tachwedd 2023 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

**Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Sancsiynau Sifil) (Cymru) 2023**

Pwynt Craffu Technegol 1: Mae Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Sancsiynau Sifil) (Cymru) 2023 ('y Rheoliadau') wedi eu gwneud o dan adran 17 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023. Mae adran 17 yn cymhwyso swyddogaethau yn Rhan 3 o Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau 2008 ('y Ddeddf') i'r Rheoliadau. Mae adran 52 o'r Ddeddf yn darparu ar gyfer gorfodi cosbau ariannol ac mae rheoliad 6 o'r Rheoliadau yn adlewyrchu'r geiriad yn y pŵer galluogi hwnnw. Mae rheoliad 6 yn darparu ar gyfer gorfodi cosbau ariannol drwy'r llysoedd sifil ac er ein bod yn cydnabod y gallai fod wedi ei fynegi'n gliriach, nid ydym yn credu ei fod yn aneglur.

Pwynt Craffu Technegol 2: Mae adran 65 o'r Ddeddf yn darparu ar gyfer cyhoeddi camau gorfodi ac mae rheoliad 14 o'r Rheoliadau yn adlewyrchu'r geiriad yn y pŵer galluogi hwnnw. O ran y cwestiynau a ofynnir gan y Pwyllgor: a) y bwriad y tu ôl i reoliad 14(3) yw galluogi disgresiwn mewn amgylchiadau pan y gall fod yn amhriodol i rai achosion gael eu cyhoeddi b) gallai ystyriaethau diogelu data, er enghraifft, arwain Gweinidogion Cymru i'r casgliad y gall fod yn amhriodol i rai achosion gael eu cyhoeddi, ac c) gallai Gweinidogion Cymru gysylltu ag awdurdodau lleol yn ysgrifenedig ynghylch arfer y disgresiwn.

Pwynt Craffu Technegol 3: Mae adran 40(3) o'r Ddeddf yn darparu ar gyfer cynnwys yr hysbysiad o fwriad ac mae paragraff 2 o Atodlen 1 i'r Rheoliadau yn adlewyrchu'r gofynion yn y pŵer galluogi hwnnw. O ran y cwestiynau a ofynnir gan y Pwyllgor: a) o ran darpariaeth ddeddfwriaethol, na ddylai, mae'r ddarpariaeth yn adlewyrchu gofynion ei phŵer galluogi. Fodd bynnag, nid yw cynnwys yr hysbysiad a restrir yn y ddarpariaeth yn gynhwysfawr ac, felly, o ran cymhwysiad ymarferol, caiff yr hysbysiad fynd i'r afael â materion gweinyddol ychwanegol gan gynnwys sut y gellir gwneud y taliad rhyddhau, a b) ystyr 'gofyniad' yw'r gofyniad i dalu'r gosb ariannol benodedig. Er ein bod yn nodi y gallai paragraff 2(2)(d)(iii) fod wedi ei fynegi'n gliriach, nid ydym yn credu ei fod yn aneglur.

Pwynt Craffu Technegol 4: Mae paragraff 1(4) o Atodlen 2 i'r Rheoliadau yn darparu disgresiwn i'w gwneud yn ofynnol darparu gwybodaeth. Nid yw'r ddarpariaeth yn cynnwys mecanwaith i orfodi'r gofyniad nac yn atal dyroddi'r hysbysiad (neu ystyried opsiynau gorfodi eraill) pan fo person yn gwrthod darparu gwybodaeth.

**Vaughan Gething AS/MS**
**Gweinidog yr Economi**
**Minister for Economy**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: VG-PO-0388-23

Paul Davies AS
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

SeneddEconomy@senedd.wales

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

SeneddLJC@assembly.wales

17 Tachwedd 2023

Annwyl Paul, Huw

Yn dilyn fy llythyr dyddiedig 16 Tachwedd, ysgrifennaf atoch i'ch hysbysu bod y Grŵp Rhyng-Weinidogol ar gyfer Masnach (IMG) a drefnwyd ar gyfer dydd Llun 20 Tachwedd 2023 wedi'i ohirio.

Hysbyswyd fy swyddogion ddiwedd prynhawn dydd Iau 16 Tachwedd, oherwydd ad-drefnu llywodraethau'r DU ac ymrwymiadau dyddiadur presennol Gweinidog Masnach newydd Llywodraeth y DU, y byddai angen ail-drefnu'r cyfarfod. Byddaf yn ysgrifennu at Greg Hands, y Gweinidog Masnach, yn nodi fy syniadau ar y pynciau fyddai wedi cael eu trafod.

Byddaf yn ysgrifennu atoch i'ch hysbysu pryd y bwriedir cynnal yr IMG nesaf ar gyfer Masnach.

Yn gywir,

Vaughan Gething

**Vaughan Gething AS**
Gweinidog yr Economi

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YPCCGB@llyw.cymru PSCGMET@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
SeneddDCC@senedd.cymru

21 Tachwedd 2023

Annwyl Huw,

**Cytundeb Cysylltiadau RhyngSefydliadol: Y Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer Tai, Llywodraeth Leol a Chymunedau**

Rwy'n ysgrifennu yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol i'ch hysbysu am gyfarfod o'r Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer Tai, Llywodraeth Leol a Chymunedau, a fydd yn cael ei gynnal ar 13 Rhagfyr 2023.

Llywodraeth yr Alban fydd yn cynnal y cyfarfod rhithwir. Bydd agenda'r cyfarfod yn cynnwys eitemau sylweddol y mae angen gwneud penderfyniad arnynt, ar y cyflenwad o dai fforddiadwy a diogelwch adeiladu. Fel y Gweinidog sy'n arwain y Grŵp Rhyngweinidogol hwn, rwyf wedi gofyn i'r Gweinidog Newid Hinsawdd fynychu'r cyfarfod, gan fod eitemau'r agenda'n dod o dan ei phortffolio.

Darperir diweddariad o'r hyn a drafodwyd ar ôl y cyfarfod.

Yn gywir,

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddDCC@senedd.cymru

23 Tachwedd 2023

Annwyl Gadeirydd

**Y Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: 40fed Uwchgynhadledd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig**

Rwy'n ysgrifennu yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol i roi gwybod ichi am gyfarfod 40fed Uwchgynhadledd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig, a gynhelir yr wythnos hon dan ofal Llywodraeth Iwerddon.

Byddaf yn mynychu'r cyfarfod yn bersonol. Yn ogystal â'r cyfle arferol i gael diweddariad cyffredinol ar wahanol faterion, thema'r Uwchgynhadledd yw 'Trawsnewid Bywydau Plant: Taclo Tlodi Plant a Gwella Lles'

Bydd y Cyngor yn cytuno ar gyd-hysbysiad yn yr Uwchgynhadledd, yn manylu ar y trafodaethau a gafwyd, a byddaf yn anfon hwn atoch. Byddaf hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd drwy ddatganiad ysgrifenedig maes o law.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith, y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, a'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol.

Dymuniadau gorau

**MARK DRAKEFORD**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakefordy@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Vaughan Gething AS/MS**
**Gweinidog yr Economi**
**Minister for Economy**

Elin Jones AS
Drwy e-bost: Llywydd@senedd.wales

23 Tachwedd 2023

Annwyl Lywydd,

Cyflwynwyd y Bil Masnach (Partneriaeth Gynhwysfawr a Blaengar y Môr Tawel) ('y Bil') i Senedd y DU, Tŷ'r Arglwyddi, ar 8 Tachwedd 2023.

Mae'r Bil yn ymdrin â gweithredu Cytundeb Masnach Rydd CPTPP. Mae'r Bil yn cynnwys ystod amrywiol o feysydd polisi, ac felly mae'n rhaid ystyried goblygiadau posibl ar lunio polisïau Cymru'n llawn. Ein dadansoddiad cychwynnol yw bod y Bil yn gwneud darpariaeth berthnasol at ddibenion Rheol Sefydlog 29 ac felly bydd yn ei gwneud yn ofynnol i osod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol. Rydym yn gweithio drwy'r manylion sydd eu hangen. Fodd bynnag, mae ystyried sut y gallai rhai darpariaethau yn y ddeddfwriaeth ddylanwadu ar weithgareddau llunio polisïau Cymru yn y dyfodol mewn rhai meysydd yn golygu bod ein dadansoddiad yn fwy cymhleth na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol. Er y bydd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn cael ei osod cyn gynted â phosibl, bydd hyn y tu allan i'r dyddiad cau arferol o bythefnos o Reol Sefydlog 29. Y gobaith yw y bydd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn cael ei osod mewn pryd i'r Pwyllgor Busnes ei ystyried yn ystod Rhagfyr.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, Rebecca Evans AS, y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, Mick Antoniw AS, y Gweinidog Materion Gwledig, Gogledd Cymru a'r Trefnydd, Lesley Griffiths AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Huw Irranca-Davies AS, a Chadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, Paul Davies, MS.

Yn gywir,

**Vaughan Gething AS**
Gweinidog yr Economi

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

# Eitem 9

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref: LJCC2023-11-15

Huw Irranca Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

22 Tachwedd 2023

Annwyl Huw

Diolch am eich llythyr dyddiedig 15 Tachwedd 2023 yn gofyn am atebion i gwestiynau mewn perthynas â'r Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol ar Reoliadau Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 (Diwygio Canlyniadol) 2023. Mae fy atebion i'w gweld yn yr Atodiad canlynol.

Yn gywir

**Lesley Griffiths AS/MS**
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd
Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Atodiad**

1. *Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gosod offeryn tebyg i'w gymeradwyo gan y Senedd ar 7 Tachwedd 2023 i newid cyfeiriadau, mewn deddfwriaeth bresennol a wnaed gan y Senedd, at “cyfraith yr UE a ddargedwir” i “cyfraith a gymathwyd”. Mae'n ymddangos bod yr offeryn drafft hwn, Rheoliadau Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2023, wedi'i osod ar 7 Tachwedd 2023. Felly, a allwch gadarnhau mai eich dull chi oedd defnyddio Offeryn Statudol Cymru i wneud newidiadau i ddeddfwriaeth a wneir gan y Senedd a Gweinidogion Cymru, tra'n cynnig defnyddio Offeryn Statudol y DU ar gyfer newidiadau i Ddeddfau'r DU. Os felly, gallech esbonio pam nad oedd un offeryn statudol Cymru yn cael ei ystyried yn briodol y tro hwn.*

   Gallaf gadarnhau ein bod wedi mabwysiadu'r dull rydych chi'n ei nodi uchod. Digwyddodd rhoi pwerau cydamserol ar Weinidogion Cymru yn hwyr ym mhroses Llywodraeth y DU ar gyfer diweddaru deddfwriaeth. Nid oedd yn ymarferol, yn effeithlon nac yn hawdd ei gyflawni yn yr amser a oedd ar gael, i ofyn i Gymru gael ei thynnu o gwmpas Offeryn Statudol Llywodraeth y DU sydd eisoes yn datblygu'n dda fel y gallem gyflwyno Offeryn Statudol i gwmpasu holl ddeddfwriaeth y DU sy'n berthnasol i faterion datganoledig yng Nghymru.

2. *Byddwch yn ymwybodol bod fy Mhwyllgor wedi argymell yn flaenorol y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno cynigion i geisio cytundeb y Senedd i gynnwys darpariaethau yn amodol ar femoranda cydsyniad offeryn statudol. A allech gadarnhau a ydych yn bwriadu cyflwyno cynnig ar gyfer dadl o'r fath mewn perthynas â'r darpariaethau sy'n ddarostyngedig i'r Memorandwm.*

   Bydd cynnig yn cael ei osod ar gyfer dadl, sydd i'w gynnal yn y Senedd ar 12 Rhagfyr 2023, ar Femorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol ar Reoliadau Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 (Diwygiad Canlyniadol) 2023.

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Senedd Cymru**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Lesley Griffiths AS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd:

15 Tachwedd 2023

Annwyl Lesley,

Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol ar Reoliadau Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 (Diwygio Canlyniadol) 2023

Diolch am eich llythyr ar 25 Hydref 2023 mewn perthynas â'r memorandwm cydsyniad offeryn statudol (y Memorandwm) a osodwyd gennych mewn perthynas â Rheoliadau Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 (Diwygio Canlyniadol) 2023.

Trafodwyd y Memorandwm yn ein cyfarfod ar 13 Tachwedd 2023. Byddem yn ddiolchgar pe gallech egluro dau fater:

1. Ym mharagraff 10 o'r Memorandwm, rydych yn datgan bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu gosod offeryn tebyg i'w gymeradwyo gan y Senedd i newid cyfeiriadau, mewn deddfwriaeth bresennol a wnaed gan y Senedd, at "cyfraith yr UE a ddargedwir" i "cyfraith a gymathwyd". Ymddengys bod yr offeryn drafft hwn, Rheoliadau Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2023 wedi'i osod ar 7 Tachwedd 2023. Felly a allwch chi, gadarnhau, os gwelwch yn dda, mai eich dull chi oedd defnyddio Offeryn Statudol Cymreig i wneud newidiadau i ddeddfwriaeth a wnaed gan y Senedd a Gweinidogion Cymru, tra'n cynnig defnyddio Offeryn Statudol y DU ar gyfer newidiadau i Ddeddfau'r DU. Os felly, a allech chi esbonio pam nad oedd un offeryn statudol Cymreig yn cael ei ystyried yn briodol y tro hwn.

2. Byddwch yn ymwybodol bod fy Mhwyllgor wedi argymell yn flaenorol y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno cynigion i geisio cytundeb y Senedd i gynnwys darpariaethau sy'n

ddarostyngedig i femoranda cydsyniad offeryn statudol. A allech chi gadarnhau a ydych yn bwriadu cyflwyno cynnig ar gyfer dadl o'r fath mewn perthynas â'r darpariaethau sy'n ddarostyngedig i'r Memorandwm.

Gan ei bod yn ofynnol i ni roi adroddiad i'r Senedd ar y memorandwm erbyn 28 Tachwedd, buaswn yn ddiolchgar pe gallech ymateb erbyn 22 Tachwedd 2023.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd



Senedd Cymru
Welsh Parliament

# Eitem 10

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: CG/PO/379/2023

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

13 Tachwedd 2023

Annwyl Huw,

Fel y gwyddoch, cynhaliwyd Araith y Brenin ar 7 Tachwedd. Mewn ymateb i'r araith, ar 10 Tachwedd rwyf wedi cyhoeddi datganiad ysgrifenedig.

Edrychaf ymlaen at gydweithio â'ch Pwyllgor ar raglen ddeddfwriaethol newydd Llywodraeth y DU fel y mae'n gymwys yng Nghymru, gan gynnwys drwy brosesau cydsyniad deddfwriaethol. Byddaf yn darparu rhagor o wybodaeth drwy gydol y sesiwn Seneddol newydd unwaith y bydd ar gael.

Yn gywir,

**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rhaglen Ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU** |
| **DYDDIAD** | **10 Tachwedd 2023** |
| **GAN** | **Mick Antoniw AS, y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad** |

Ar 7 Tachwedd 2023, agorodd Ei Fawrhydi y Brenin sesiwn newydd Senedd y DU yn ffurfiol, gan roi braslun o ddeddfwriaeth arfaethedig Llywodraeth y DU ar gyfer y sesiwn newydd.

Darparwyd rhagor o wybodaeth am gynnwys Araith y Brenin wedyn mewn dogfen a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Prif Weinidog. Cyhoeddodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru ddatganiad ysgrifenedig ar 8 Tachwedd yn nodi'r Biliau y bwriedir eu hymestyn a'u cymhwyso i Gymru.

Cyn Araith y Brenin, roedd Llywodraeth y DU wedi rhoi rhestr i Lywodraeth Cymru o bynciau dangosol y mae'n debygol y bydd yn deddfu arnynt yn ystod sesiwn newydd Senedd y DU, ac mae'r ddwy lywodraeth wedi bod yn trafod ar lefel swyddogion nifer o'r meysydd deddfu posibl.

Cafodd nifer o Ddeddfau gan Senedd y DU eu pasio ar faterion datganoledig heb gydsyniad y Senedd yn ystod sesiwn ddiwethaf Senedd y DU, gan ddangos diffyg parch at ewyllys y Senedd a Chonfensiwn Sewel fel y mae'n ymddangos yn adran 107(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Rwyf wedi pwysleisio wrth Weinidogion Llywodraeth y DU na ellir parhau i weithio yn y ffordd hon, ac mae'r trafodaethau mwy ffrwythlon sydd wedi cael eu cynnal ar y rhaglen ddeddfwriaethol newydd hon hyd yma wedi codi fy nghalon rywfaint.

Ein safbwynt hanfodol o hyd yw y dylai deddfwriaeth sylfaenol mewn meysydd datganoledig gael ei deddfu gan y Senedd. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn dal i gredu y gall fod rhai amgylchiadau pan fydd yn gwneud synnwyr i ddarpariaethau, sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, gael eu cynnwys mewn Biliau gan Senedd y DU, gyda chaniatâd penodol y Senedd. Mae'r Gweinidog Newid Hinsawdd wedi ysgrifennu'n ddiweddar at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a'r Pwyllgor

Llywodraeth Leol a Thai i drafod ein gwaith gyda Llywodraeth y DU i wahardd arferion “dim DSS” a “dim plant” mewn tai a fflatiau preswyl a osodir i'w rhentu yng Nghymru. Mae'r Prif Weinidog hefyd wedi cadarnhau yn y Cyfarfod Llawn ein gwaith ar y cyd â Llywodraeth y DU ar gynigion ar gyfer diwygio lesddaliadau. Byddwn yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU pan fo hynny'n cyd-fynd â'n hegwyddorion.

Mae chwech o'r Biliau a grybwyllwyd yn Araith y Brenin a'r dogfennau ategol wedi eu trosglwyddo o'r sesiwn ddiwethaf. Rydym eisoes wedi gosod memoranda cydsyniad deddfwriaethol mewn perthynas â thri o'r rheini — y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (Rhif 2), y Bil Gweithgarwch Economaidd Cyrff Cyhoeddus (Materion Tramor) a'r Bil Dioddefwyr a Charcharorion. Byddwn yn parhau i drafod â Llywodraeth y DU er mwyn sicrhau bod y buddiannau datganoledig ac unrhyw bryderon mewn perthynas â phob un o'r Biliau hynny'n cael sylw.

Edrychaf ymlaen at rannu rhagor o wybodaeth am Filiau perthnasol pan fydd modd gwneud hynny, ac at weithio gyda’r Senedd ar y broses cydsyniad deddfwriaethol drwy gydol sesiwn newydd Senedd y DU.

Y Pwyllgor Busnes
—
Business Committee

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddBusnes@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddBusnes
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddBusiness@senedd.wales
senedd.wales/SeneddBusiness
0300 200 6565

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

22 Tachwedd 2023

**Gweithdrefnau ar gyfer craffu ar ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020 a fframweithiau polisi cyffredin y DU gyfan**

Annwyl Huw,

Yn ein cyfarfod ar 14 Tachwedd, bu'r Pwyllgor Busnes yn ystyried newidiadau gweithdrefnol a allai fod yn ofynnol ar gyfer craffu ar ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020 (UKIMA) a fframweithiau polisi cyffredin y DU gyfan.

Roedd hyn yn dilyn argymhellion a wnaed gan bwyllgorau, gan gynnwys y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ynghylch effaith bosibl Deddf Marchnad Fewnol y DU a fframweithiau polisi cyffredin ar ddeddfwriaeth a ystyrir gan y Senedd a seneddau eraill yn y Deyrnas Unedig.

Ar 14 Tachwedd, cytunodd y Pwyllgor Busnes i ofyn barn y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar gynigion ar gyfer Rheolau Sefydlog newydd a fyddai'n ceisio rhoi sylw i'r argymhellion hynny.

Rwy'n atodi papur sy'n amlinellu'r newidiadau arfaethedig i chi eu hystyried. Byddem yn ddiolchgar o gael barn y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar y cynigion. Rwyf hefyd wedi ysgrifennu at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Fforwm y Cadeiryddion i ofyn eu barn hwy. Bwriadaf i'r Pwyllgor Busnes ddychwelyd i

ystyried y materion hyn ymhellach yn gynnar yn 2024, a byddwn felly’n ddiolchgar o gael eich barn erbyn 15 Rhagfyr 2023.

Cofiwch ei fod yn bapur preifat ac na ddylid ei gyhoeddi na'i ddosbarthu i bobl heblaw am aelodau’r Pwyllgor.

Cofion gorau,

**Y Gwir Anrh. Elin Jones AS**
Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon